OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 939 (Cy. 232)

# LLESIANT, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Asesiadau Llesiant Lleol) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *19 Medi 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *25 Medi 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *24 Hydref 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pŵer a roddir gan adran 38(3)(i) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Asesiadau Llesiant Lleol) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Hydref 2017.

### Asesiadau llesiant lleol

**2.** Wrth lunio asesiad o dan adran 37(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â'r materion a ddisgrifir yn adran 38(3) o'r Ddeddf honno, roi sylw i'r materion a restrir yn yr Atodlen.

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

19 Medi 2017

(**1**) 2015 dccc 2.

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

Materion i roi sylw iddynt wrth lunio asesiad o dan adran 37(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**1.** Yr adolygiad diweddaraf o ansawdd aer ar gyfer yr ardal awdurdod lleol a gyflawnwyd o dan adran 82 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**2**).

**2.** Y mapiau sŵn strategol diweddaraf a luniwyd o dan Ran 2 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006(**3**) ac a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn darparu bod rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus, wrth lunio asesiad llesiant o dan adran 37 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roi sylw i'r adolygiad diweddaraf o ansawdd aer ar gyfer ei ardal awdurdod lleol a gyflawnwyd o dan adran 82 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a'r mapiau sŵn strategol diweddaraf a luniwyd o dan Ran 2 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 ac a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

(**2**) 1995 p. 25.
(**3**) O.S. 2006/2629 (Cy. 225).